

PARRY, RHISIART (1710 - 1763), bardd, ysgolfeistr, a chlochydd, Niwbwrch, ym Môn.

Enw: Rhisiart Parry

Dyddiad geni: 1710

Dyddiad marw: 1763

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: bardd, ysgolfeistr, a chlochydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Barddoniaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Ray Looker

Argraffwyd peth o'i waith, ac yn ei blith ' Araith Wgan ar Gân ' (*Y Brython*, 1863), a hefyd nifer o gerddi (un o leiaf ohonynt yn gyfieithiad o'r Saesneg) a gyhoeddwyd yn y 18fed ganrif; ceir rhestr ohonynt gan ' Myrddin Fardd ' yn *Y Traethodydd*, 1886. Ceir un enghraifft bendant o'i waith yn **NLW MS 1666B** (209b), sef carol plygain. Y mae'n debyg hefyd mai ef yw'r Richard Parry y ceir cerddi eraill o'i waith yn **Bodewryd MS 73D**, **NLW MS 432B**, **NLW MS 559B**, **NLW MS 1238B**: **Barddoniaeth**, **NLW MS 6882D**, **NLW MS 7892B**, a Swansea MS. 2. Yn ôl ei garreg fedd, sydd bellach wedi diflannu, bu farw ar 5 Ionawr 1763 yn 53 mlwydd oed. Claddwyd ef ym mynwent Llannerch-y-medd, gyferbyn â'r allor ar yr ochr ddeheuol.

Awdur

Ray Looker

Ffynonellau

Y Brython (Tremadog), 1863, 324

Y Traethodydd, 1886, 213-4, 276

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Richard Parry ('Gwalchmai'), *Enwogion MĀ'n: henafol a diweddar, mewn cofnodau hanesol* (1877)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20734302**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Looker, R., (1953). PARRY, RHISIART (1710 - 1763), bardd, ysgolfeistr, a chlochydd, Niwbwrch, ym Môn.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PARR-RIC-1710>

Prifysgol

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government